

Ffordd newydd o osod y gyllideb

Fel arfer, erbyn mis Medi, byddai'r gyllideb esgobaethol wedi cael ei pharatoi a'i chytuno. Serch hynny, yn y cyfnod rhyfedd heriol hwn, fe aeth y normal yn abnormal, yr arferol yn anarferol a'r sicrwydd yn ansicr. Y mae Tim Llewelyn, Is-gadeirydd Bwrdd Ariannol yr Esgobaeth, yn egluro'r strategaeth am 2021



Y mae cartrefi, cymdeithasau, elusennau a busnesau ym mhob rhan o'r wlad yn paratoi cyllideb rywbryd yn ystod y flwyddyn ond y mae pandemig y Covid-19 yn golygu bod yn rhaid ail-ymweld ac ail-asesu'r cynlluniau ariannol.

Y mae amserau heriol yn galw am ymateb gwahanol ond nid yw gwahanol o reidrwydd yn golygu gwaeth. Hyd yn oed cyn y pandemig, yr oeddem ni, Tîm Ariannol yr Esgobaeth, yn gwybod y byddai'n rhaid i ni gael ymateb newydd i'r broses o osod cyllideb. Ymateb a fyddai'n ceisio gwella perthynas gyda'r gosodwyr cyllid ac un a fyddai'n cydnabod bod eglwysi ac AGLI yn wynebu eu sialensau ariannol eu hunain.

Yn ogystal â darparu gweinidogaeth, y mae gan yr esgobaeth gynlluniau cyffrous, ac y mae y rhan fwyaf ohonynt, gwaetha'r modd, angen ariannu i ryw raddau. Y mae darparu cyllideb cytbwys ac afforddwy i 2021 wedi profi'n heriol iawn, ac, yn wyneb hyn, dechreudd y Tîm Ariannol gyfres o gyfarfodydd ymestyn gyda phob gosodwr cyllid. Yr ydym yn dymuno clywed yn uniongyrchol am y gost ariannol ond hefyd budd cenhadol y gallai prosiectau o bob math greu a darparu. Yr ydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Esgob a'r archddiaconiaid i gael dealltwriaeth ddyfnach o'u cynlluniau gweinidogaeth a chenhadaeth i'r esgobaeth a'r archddiaconiaethau. Bydd y dealltwriaeth ddyfnach hon, gobeithio, yn gymorth i ddarparu cyllideb cytbwys a fforddiadwy a all, yn ei thro, gynnal agweddau amrywiol o fywyd esgobaethol.

Tra bod adolygu ariannu yn allweddol y mae hefyd yn amserol bod y Bwrdd Ariannol Esgobaethol (DBF) wedi dechrau ymchwilio'n dyfnach i ffynonellau eraill o incwm cynladwy a fydd maes o law yn helpu i leihau dibyniaeth ar eglwysi a chefnogi tyfiant.

Gwyddom nad oes atebion hawdd. Serch hynny, yr ydym yn hyderus bod ein agwedd newydd o ymwneud pellach yn help i greu ysbryd o ymwneud yn hytrach na bod y gosodwr cyllid ond yn derbyn ar ddiwedd y broses. Bydd y drefn cyllideb yn dal yn heriol. Efallai na fydd yn datgloi'r incwm ychwanegol a fydd ei angen, nac yn wir yn adnabod ardaloedd lle y gellir torri ar wario, ond y mae gennym ffydd y bydd yn symud tuag at wella'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r DBF, AGLI ac eglwysi.